# Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer ein Tenantiaid

united welsh

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn edrych ar y ffordd rydym ni (Cymdeithas Tai United Welsh Ltd) yn trin eich data personol ar gyfer ein busnes craidd fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n darparu tai fforddiadwy.

Mae gan rai o'n gweithgareddau eraill Hysbysiadau Preifatrwydd ar wahân yn unol â'n Polisi Preifatrwydd.

Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan www.unitedwelsh.com neu drwy gysylltu â ni fel a ganlyn:

**Ffôn:** 0330 159 6080
**E-bost:** data.protection@unitedwelsh.com
**Post:** Cymdeithas Tai United Welsh Ltd, Y Borth, 13 Beddau Way, Caerffili, CF83 2AX

Nia Roblin, Ysgrifennydd y Cwmni, yw ein Swyddog Diogelu Data, a gellir cysylltu â hi drwy ddefnyddio'r dulliau uchod.

## Sut rydym yn defnyddio eich data personol?

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth rydym yn ei defnyddio yn wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn uniongyrchol i ni amdanoch chi eich hun neu'r bobl rydych yn byw gyda nhw. Fodd bynnag, gall hefyd gynnwys gwybodaeth a roddir i ni gan sefydliad trydydd parti megis awdurdod lleol, yr Heddlu neu elusen gymorth yn y trydydd sector, neu gall rhywfaint ohoni fod yn wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.

| Categori gwybodaeth | Pam mae ei hangen arnom? | Sail gyfreithiol |
|---|---|---|
| **Manylion sylfaenol megis*:**<br>• Enw<br>• Cyfeiriad<br>• Cyfeiriadau e-bost<br>• Rhifau ffôn<br>• Dyddiad geni | Er mwyn gallu darparu tenantiaeth i chi a rheoli'r denantiaeth honno yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol fel landlord. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol |
| | Er mwyn gallu cysylltu â chi fel rhan o'r gwaith o adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig a sicrhau ein bod yn diwalluanghenion ein tenantiaid a'n cymunedau. | • Buddiannau Dilys |
| **Gwybodaeth rheoli tenantiaeth megis*:**<br>•Gwybodaeth ariannol a hawl i fudd-daliadau<br>• Hanes cyflogaeth<br>• Dewisiadau iaith<br>• Gofynion cymorth<br>• Ymddygiad gwrthgymdeithasol<br>• Rheoli cwynion a hawliadau yswiriant | Er mwyn gallu darparu tenantiaeth i chi a rheoli'r denantiaeth honno yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol fel landlord, gan gynnwys datblygu cynlluniau cymorth personoledig os bydd angen. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol |
| | Er mwyn gallu adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein tenantiaid a'n cymunedau. | • Buddiannau Dilys |
| | Amddiffyn ein hunain yn erbyn honiadau a hawliadau cyfreithiol. | • Buddiannau Dilys |

| | | |
|---|---|---|
| **Categorïau arbennig megis*:**<br>• Gwybodaeth am iechyd<br>• Collfarnau troseddol neu droseddau<br>• Hil, tarddiad ethnig, crefydd<br>• Bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol | Er mwyn gallu darparu tenantiaeth i chi a rheoli'r denantiaeth honno yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol fel landlord. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfre-ithiol<br>• Buddiannau Hanfodol<br>• Sail eilaidd: Cyflogaeth a diogelwch cymdeithasol |
| | O dan y gyfraith mae'n ofynnol i ni sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. | • Rhwymedigaeth Gyfre-ithiol<br>• Sail eilaidd:<br>• Cyflogaeth a diogelwch cymdeithasol |
| | Er mwyn gallu adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein tenantiaid a'n cymunedau. | • Buddiannau Dilys<br>• Sail eilaidd:<br>• Cyflogaeth a diogelwch cymdeithasol |
| **Gwybodaeth am y teulu neu gydberthnasau megis*:**<br>• Pwy sy'n byw yn y cartref<br>• Nifer y plant â'u hoedra<br>• Perthynas agosaf | Er mwyn gallu darparu tenantiaeth i chi a rheoli'r denantiaeth honno yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol fel landlord. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol |
| | Er mwyn gallu adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein tenantiaid a'n cymunedau. | • Buddiannau Dilys |
| | At ddibenion adnabod. | • Buddiannau Dilys |
| **Delweddau / lluniau** | At ddibenion hyrwyddo, megis datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau ac ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol. | • Cydsyniad |
| **Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)** | Mae nifer o gynlluniau CCTV ar waith yn ein swyddfeydd, yn ogystal â'n cynlluniau tai arbenigol â chymorth a'n fflatiau gyda mynedfeydd a mannau cymunol er mwyn atal troseddau. | • Buddiannau Dilys |
| **Recordiadau o Alwadau Ffôn** | Rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn unol â'n cytundebau tenantiaeth a'n dyletswyddau fel landlord. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol |
| | Iechyd a Diogelwch a gofynion cyfreithiol fel landlord a chyflogwr cyfrifol. | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol |
| | Caiff pob galwad ffôn a wneir i'n rhifau neu o'n rhifau ei recordio at ddibenion hyfforddiant a monitro. | • Buddiannau Dilys |

*Nid yw'r enghreifftiau a roddwyd o'r wybodaeth rydym yn ei defnyddio yn rhestrau cynhwysfawr.

## Gyda phwy rydym yn rhannu eich data?

Efallai y bydd angen i ni hefyd rannu manylion cyswllt gydag isgontractwyr sy'n gweithio i ni neu i Celtic Horizons fel y gallant gysylltu â chi i wneud apwyntiad i ymweld.

Efallai y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda:

- Awdurdodau lleol, er enghraifft, i brosesu hawliadau budd-dal tai
- Landlordiaid cymdeithasol eraill i brosesu cyfnewidiadau cydfuddiannol
- TSM, cwmni sy'n gweithredu ar ein rhan i'ch helpu i sefydlu cyflenwadau cyfleustodau fel bod popeth yn barod pan fyddwch chi'n symud i mewn gyntaf.
- Yr Heddlu, neu asiantaethau eraill at ddibenion megis darparu cymorth neu ymchwilio i droseddau ac atal troseddau.

• Rydym hefyd yn defnyddio amrywiol systemau technoleg i drin eich data, ac mae rhai o'r rheini'n ei gwneud yn ofynnol i ni rannu data y tu allan i'r AEE.

Dim ond os:

• Mae cyfreithiau sy'n caniatáu inni wneud hynny
• Mae gennym ddiddordeb cyfreithlon mewn gwneud hynny
• Pan allwn fod yn hyderus bod y data rydym yn ei rannu'n ddiogel
• Pan fyddwn yn hyderus y byddech yn rhesymol yn disgwyl i ni rannu eich gwybodaeth. Er enghraifft, wrth adolygu ein gwasanaethau i wneud gwelliannau a fyddai o fudd i chi.
• Pan fyddwn yn hyderus bod y data rydym yn ei rannu'n ddiogel. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth pan fyddwch wedi rhoi caniatâd penodol i ni rannu eich gwybodaeth.

## Am ba hyd y byddwch yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd y cyfnod y byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn dibynnu ar y rheswm pam mae angen i ni ei phrosesu. Byddwn yn ei chadw yn unol â'n hamserlen cadw, gofynion deddfwriaethol a chanllawiau arfer gorau, hyd nes na fydd angen y data mwyach at y diben y cawsant eu casglu. Ar ôl hyn, caiff y wybodaeth ei dinistrio a'i gwaredu mewn modd diogel. Os bydd angen i ni gadw'r wybodaeth at ddibenion ystadegol byddwn yn ei gwneud yn ddienw neu'n defnyddio ffugenw yn lle eich enw chi lle y bo'n bosibl.

## Eich hawliau unigol

Mae gennych nifer o hawliau unigol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae gennych yr hawl i weld y wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu amdanoch. Os byddwch o'r farn bod y wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch yn anghywir neu'n anghyflawn, mae gennych yr hawl i ofyn i ni ei chywiro neu ei chwblhau. Os ydym yn defnyddio eich gwybodaeth ar sail eich caniatâd yn unig, mae gennych hawl hefyd i dynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni.

Mae gennych yr hawl hefyd, mewn rhai amgylchiadau, i atal eich data rhag cael eu prosesu; gwrthod rhai dulliau prosesu; dileu eich data neu, mewn rhai achosion, ei throsglwyddo i sefydliad arall o'ch dewis.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr holl hawliau hyn ar ein gwefan www.unitedwelsh.com neu drwy fynd i www.ico.org.uk

## Storio eich data personol

Er mwyn ein galluogi i ddarparu tenantiaeth i chi, byddwn yn storio eich data personol ar nifer o systemau electronig. Cedwir rhai o'r systemau hyn ar y safle yn ein rhwydwaith corfforaethol sy'n eiddo preifat neu mewn gwasanaeth Cwmwl. Os bydd data yn cael eu storio ar wasanaeth Cwmwl, rydym yn gweithio'n agos gyda'r darparwyr er mwyn sicrhau bod diogelwch eich gwybodaeth yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.

Rydym hefyd yn defnyddio cofnodion papur pan fo angen; er enghraifft, cynlluniau personol gadael mewn argyfwng i breswylwyr cynllun tai gwarchod neu gopïau caled o gytundebau tenantiaeth. Cedwir y rhain mewn cyfleuster storio dan glo a dim ond aelodau perthnasol o staff sydd â mynediad iddo.

Ni chaiff unrhyw ran o'ch gwybodaeth ei storio na'i rhannu y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop.

## Ddim yn fodlon ar hyn?

Os nad ydych yn fodlon ar unrhyw un o'r ffyrdd rydym yn trin eich data, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os na fyddwch yn fodlon o hyd, gallwch gwyno i awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer diogelu data, sef Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, drwy fynd i www.ico.org.uk/concerns neu drwy ffonio 0303 123 1113.

